# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Mawrth 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Yn dilyn eich ymateb i WAQ 10278, pa ddarpariaethau sydd o fewn yr astudiaeth ddichonolrwydd am gyswllt trên ysgafn uniongyrchol rhwng Bae Caerdydd a Gorsaf Caerdydd Canolog. (WAQ10426)

**Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog dros yr Amgylchedd nodi pryd y bydd deddfwriaeth yn debygol o ddod i rym yng Nghymru a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol reoli'r niwsans y mae leylandii yn ei greu. (WAQ10427)

**Val Feld (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog dros yr Amgylchedd nodi a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol reoli'r niwsans y mae leylandii yn ei greu. (WAQ10428)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad byr ar ei chynlluniau i wella system drafnidiaeth ranbarthol Cymru. (WAQ10429)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad byr ar gyfansymiau'r cyllid ar gyfer yr A55 newydd, a ffynonellau'r cyllid hwnnw. (WAQ10430)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn ar y cynnig i ddynodi Afon Menai a Bae Conwy fel Ardal Arbennig Cadwraeth. (WAQ10431)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Faint o wrthwynebiadau ffurfiol a wnaed i'r cynnig i ddynodi Afon Menai a Bae Conwy fel Ardal Arbennig Cadwraeth. (WAQ10432)